

**PWYSIG: RHAI CANIATÁU CWCIS YN DY BORWR I DDEFNYDDIO'R SAFLE**

Ar **Mozilla Firefox** Tasgau->Dewisiadau->Preifatrwydd->Cwcis-> tic i Galluogi cwcis a chlec i lawn  
Ar **Internet Explorer** mae rhywle yn Offer (Tools) -> Dewisiadau Rhynggrwyd (Internet Options) -> Diogelwch (Security), a Custom Level ar hen fersiynau -> a sleidio'r bar i'r gwaelod.

- Os wyt ti'n canfod problem, sgrïpt sydd ddim yn rhedeg yn gywir, gwall cyfieithu, neu eisiau cyflwyno sylwadau neu awgrymiadau anfon ebost i gwyddbwyll(at)dyffrynaeron.org. Mae rhai darnau heb eu cyfieithu eto ac rwy'n ymwybodol o'r rhain!
- Bob tro fyddi di'n mewngofnodi bydd modd i ti weld beth yw statws y gemau rwy'ti'n chwarae ar hyn o bryd, a p'un ai dy dro di yw hi neu tro dy wrthwynebydd. O roi clec i **Chwarae** gallu di symud neu astudio'r gêm.

Dyfyniad Gwyddbwyll						
Pan weli di symudiad da--meddylia--a chwilia am un gwell.' -- Em. LASKER						
Gemau ar eu hanner						
	Gwrthwynebydd	Turnamaint	Dy liw	Tro	Symudiad diwethaf	Swyddogol
●	<a href="#">defnyddiwr</a>	Na	Gwyn	<b>Dy dro di</b>	18/09/05 17:28 (0 diwrnod)	Na <input type="button" value="Chwarae"/>
●	<a href="#">defnyddiwr2</a>	Na	Du	Disgwyl	18/09/05 17:21 (0 diwrnod)	Na <input type="button" value="Chwarae"/>

- I wahodd rhywun i chwarae yn dy erbyn rho glec i **Heriau** yn y prif ddewislen, a chlec i **Gwahodd** wedyn wrth enw'r chwaraewr.

**Gwahodd rhywun i chwarae gêm newydd**

[Defnyddwyr newydd](#) [Chwarae'n erbyn cyfrifiadur](#) [Defnyddwyr arlein](#)


Tudalen: [[<](#)] [[1](#)] [[>](#)]

Gosodiadau gêm						
Dy liw:	Ar hap <input type="button" value="v"/>					
Chwarae am safle swyddogol:	Na <input type="button" value="v"/>					
Amser pob chwaraewr:	Diderfyn <input type="button" value="v"/>					
Amser ar ben:	14 diwrnod					
Statws		Chwaraewr	Gwlad	Graddfa	Lefel	
●	<input type="button" value="Gwahodd"/>	defnyddiwr3		1500	3	<input type="button" value="Manylion"/>
●	<input type="button" value="Gwahodd"/>	defnyddiwr4		1500	3	<input type="button" value="Manylion"/>
●	<input type="button" value="Gwahodd"/>	aran	Cymru	1500	3	<input type="button" value="Manylion"/>
●	<input type="button" value="Gwahodd"/>	Fflamingo		1500	3	<input type="button" value="Manylion"/>
●	<input type="button" value="Gwahodd"/>	gwion		1500	3	<input type="button" value="Manylion"/>

- Os oes rhywun wedi dy wahodd/herio i chwarae bydd yr her yn ymddangos yn y brif ddewislen pan wnei di fewngofnodi. Mae'r botymau **Derbyn** a **Gwrthod** yn rhoi dewis i ti am sut i ymateb i'r her, ond does dim rhaid ymateb yn syth. Os wyt ti wedi bod yn chwarae cer nôl i'r brif ddewislen neu cadw lygad ar y dudalen heriau rhag ofn bod rhywun newydd dy herio.

Dyfyniad Gwyddbwyll						
'Mae'n well gen i golli gêm dda nag ennill un wael.' -- LEVY						
Rwy'ti wedi derbyn her i chwarae!						
Heriwr	Dy liw	Math	Graddfa herio	Pwyntiau	Amser pob chwaraewr	Ateb
<a href="#">defnyddiwr</a>	Gwyn	Ddim yn swyddogol	Normal	+0 / -0	Diderfyn	<input type="button" value="Derbyn"/> <input type="button" value="Gwrthod"/>

- I symud darn ar y bwrdd rho glec i'r sgwâr, ac wedi iddo droi'n felyn rho glec i'r sgwâr mae'r darn i fod i symud iddo. Fel y gweli o'r llun dim ond y Brenin sydd angen symud wrth gastellu.
- Mae modd i ti gynnal sgwrs gyda dy wrthwynebydd wrth chwarae. Gall hon fod yn sgwrs fyw neu dros gyfnod hirach - cyfle perffaith i ti drefnu gêm fyw gyda rhywun, trafod tactegau gwyddbwyll, trefnu twrnaint, neu falu awyr i dynnu ei sylw!
- Mae modd i ti hefyd gynnig gêm gyfartal i dy wrthwynebydd drwy roi clec i **Cyfartal**, a bydd botymau **Derbyn** a **Gwrthod** yn ymddangos ar ei sgrin chwarae y tro nesaf i'r dudalen lwytho (o fewn eiliadau). Bydd neges yn ymddangos ar dy sgrin yn syth ar ôl iddo ymateb. Mae modd i ti ildio gêm hefyd!



- Mae'r ystafell sgyrsio gyffredinol yn cynnig cyfle i ti drafod gyda phobl eraill sydd ar y wefan, a threfnu gêm fyw yn eu herbyn. Gallu di hefyd drafod unrhyw beth arall sydd ddim yn torri rheolau'r safle ynglyn â moesgarwch ayb. I ddechrau sgyrsio rho glec i **Ystafell sgyrsio** ar y brif dudalen - sef y dudalen **Dewislen**.

**Chat:** Owen Llywelyn yn ymuno â'r sgwrs 18.09.05, 18:35

**defnyddiwr:** shwmai - defnyddiwr? 18.09.05, 17:27

**Owen Llywelyn:** cofia os ti ishe gem - anfon her drwy\'r ddewislen - heriau-> gwahodd 🙌  
18.09.05, 17:24

**Fflamingo:** www...helo 🤪🤪 18.09.05, 16:14

**defnyddiwr:** Edrych ar raddio gemau 😊 18.09.05, 01:02

- Mae modd i ti ddadansoddi dy gemau di dy hun a gemau pobl eraill drwy roi clec i'r gêm ac wedyn clec i **Dadansoddi gêm**. Mae'r botymau yn gwneud y pethau canlynol: |< nôl i ddechrau'r gêm, > symudiad nesaf, < nôl un symudiad, **Chwarae** - symud drwy'r gêm fesul symudiad, **G/D** - gweld y gêm o safbwynt y lliw arall, **Llwytho PGN** - llwytho'r gêm lawr fel dogfen testun. Mae rhestr o gemau sydd newydd orffen ar waelod y brif dudalen (**Dewislen**) os wyt ti eisiau edrych ar gêm a'i dadansoddi, neu cymer olwg ar gemau sy'n dal i gael eu chwarae drwy roi clec i **Pob gêm** a wedyn **Dadansoddi gêm**.
- Mae'n bwysig bod cwcis wedi'i galluogi ar dy borwr i ddefnyddio'r safle.
- Cafwyd rhai trafferthion gyda rhedeg y sgrïptiau wrth gyfieithu i'r Gymraeg, yn enwedig ar Internet Explorer. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â defnyddio collnod mewn js alert. Rwy'n credu bod rhain i gyd wedi cael eu datrys. Os wyt ti'n canfod chwilod, neu eisiau cymorth pellach, anfon ebost i **gwyddbwyll(at)dyffrynaeron.org**. Diolch am ddefnyddio gwyddbwyll.com.

## Chwarae dy chwarae!